Pwyllgor Adolygu Gweithredol
09 Medi 2026

Yn Bresennol (Ar-lein):
Y Cynghorydd M Bowen, y Cynghorydd D Clements, y Cynghorydd S Hancock MBE, Mrs S Hoss, y Cynghorydd A Tinley, y Cynghorydd H Murphy, a Dr M Havard (dirprwy ar ran Mr G A Jones).

Hefyd yn bresennol:
Tom Bean (Arweinydd Tîm Dysgu a Chynhwysiant), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd - Cofnodion), Jessica Morgan (Pennaeth Datgarboneiddio), Sara Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu), Andrew Muskett (Rheolwr Prosiectau Adeiladau) a Mair Thomas (Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth).

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 12:00pm)

1. **Penodi Cadeirydd am y cyfarfod**
   Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd enwebedig am y flwyddyn sydd i ddod, cytunwyd i benodi Cadeirydd am y cyfarfod. Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan Mrs S Hoss, **penderfynwyd** penodi'r Cynghorydd D Clements yn Gadeirydd am y cyfarfod.

2. **Penodi Cadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod**
   Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, **penderfynwyd** penodi'r Cynghorydd C Williams yn Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.

3. **Penodi Dirprwy Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod**
   Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, **penderfynwyd** penodi Miss F Day yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.

4. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
   Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Miss F Day, Mr GA Jones a'r Cynghorydd C Williams.

5. **Datgan buddiannau**
   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

6. **Cofnodion**
   Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2026 i'w cadarnhau a'u dilysu.

   Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan Mrs S Hoss, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2026.

7. **Log Gweithredu a Materion yn Codi**
   Nodwyd y log gweithredu.

Nodwyd.

8. Ymchwiliad Dwfn/ Hunanasesiad ar yr Amcanion Llesiant: Hinsawdd

Cyflwynodd y Pennaeth Datgarboneiddio adroddiad ar yr archwiliad dwfn a'r hunanasesiad ar yr amcan llesiant Hinsawdd. Dywedwyd bod yr amcan Hinsawdd yn canolbwyntio ar gyflawni Awdurdod sy'n garbon-niwtral erbyn 2030, drwy gynorthwyo'r Parc i lwyddo i gyrraedd niwtraliaeth carbon ac i addasu i effaith newid hinsawdd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am ganlyniadau'r amcan, asesiad o'r cynnydd a wnaed, ystadegau perthnasol, yr astudiaethau achos, yr heriau a'r cyfleoedd, manylion y cyfraniadau at y canlyniadau trawsbynciol, ac asesiad cyffredinol, yn ogystal â'r camau nesaf. Tynnodd y Pennaeth Datgarboneiddio sylw at y negeseuon allweddol o'r adroddiad, ac eglurodd bod y data ar allyriadau yn cael ei adolygu gan nad oedd y data eto wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Dywedodd Aelod bod allyriadau'r Awdurdod wedi cynyddu, er gwaethaf ymdrechion gorau'r Tîm yn 2024/25, o ganlyniad i gyfuniad o ffactorau oedd wedi bod yn siomedig i'r tîm ac i'r Aelodau. Nodwyd bod y ffigurau allyriadau diweddaraf am 2025/26 yn fwy cadarnhaol, ac roedd yr Aelodau o'r farn bod hyn yn dyst i waith caled y staff. Gofynnodd Aelod a oedd gan y tîm lwybr penodol i gyflawni niwtraliaeth carbon erbyn 2030, ac mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Datgarboneiddio bod y tîm yn hyderus y gallai'r Awdurdod ddod yn garbon niwtral ond y byddai angen edrych yn fanwl ar y ffigurau i weld a ellid cyrraedd y targed hwn erbyn 2030.

Dywedwyd bod y pwmp gwres o'r ddaear wedi methu yn Oriel y Parc, a gofynnwyd am fanylion pellach. Cadarnhaodd y swyddogion bod y pwmp gwres o'r ddaear, a osodwyd yn wreiddiol 20 mlynedd yn ôl, wedi methu ar yr un pryd â'r oerydd ar y safle, ac felly roedd angen disodli'r system gyfan. Ychwanegwyd bod y prosiect wedi'i drefnu i ddigwydd yn y flwyddyn newydd.

O ran hyfforddiant llythrennedd carbon, roedd Cadeirydd yr Awdurdod wedi annog yr Aelodau i gwblhau'r hyfforddiant os nad oeddent eisoes wedi gwneud hynny. Sylw un Aelod oedd y byddai hyfforddiant diweddaru ar lythrennedd carbon yn ddefnyddiol.

Nodwyd.

9. Astudiaeth Achos: Gwydnwch hinsawdd ac ymgysylltu ar faterion cynllunio

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Dysgu a Chynhwysiant astudiaeth achos ar sesiwn a gynhaliwyd gyda Disgyblion Blwyddyn 8 ar addasu i'r newid hinsawdd yn Niwgwl. Roedd y cyflwyniad yn amlinellu strwythur y sesiwn a'r pynciau a archwiliwyd, gan dynnu sylw at y manteision a'r heriau o weithio ar y cyd i ddiwallu anghenion amrywiol bartneriaid mewn timau addysg, cynllunio a lliniaru risg llifogydd. Eglurwyd bod yr Awdurdod wedi gweithio

gydag Ysgol Harri Tudur ers 2022, gan gyflwyno gweithgareddau trochi oedd yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd i Gymru. Amlinellwyd y manteision a'r canlyniadau dysgu a ddeilliodd o'r sesiwn, a thrafodwyd gwaddol gadarnhaol y sesiynau megis y rhai hyn. Roedd yr Aelodau yn cydnabod pa mor bwysig yw gweithio mewn partneriaeth, a diolchwyd i Swyddogion Cyngor Sir Penfro ac Adran Gynllunio yr Awdurdod am gynnal y sesiwn.

Dywedwyd bod Swyddog Cynllunio yr Awdurdod wedi cyhoeddi blog oedd yn ymdrin â'r sesiwn, a chytunwyd y dylid dosbarthu'r ddolen i'r blog i'r Aelodau.

Bu trafodaeth ar y manteision o weithio gyda phartneriaid i ymgysylltu â phlant ysgol ar bynciau megis addasu i'r newid hinsawdd. Cytunwyd bod gan sesiynau rhyngweithiol effaith barhaol ac y gallent ysbrydoli pobl ifanc i ymwneud mwy â'r Parc Cenedlaethol yn y dyfodol.

Trafododd yr Aelodau i ba raddau y gall y gwaith a gyflawnir gan y Tîm a gan adnoddau Tirlun, barhau i gynnal sesiynau megis hon. Trafodwyd hefyd yr heriau o gyflwyno sesiynau megis y rhai hyn, gan gynnwys sesiynau ar logisteg, tywydd eithafol, cyllid a chyfyngiadau adnoddau. Ychwanegwyd bod nifer o ysgolion yn brin eu hadnoddau oedd wedi golygu mai dim ond rhai o'r ysgolion oedd yn gallu partneru â'r Awdurdod.

Eglurodd yr Arweinydd Tîm bod staff yr Awdurdod yn falch o gael y cyfle i weithio gyda phlant ysgol uwchradd ar yr achlysur hwn gan fod y cyfleoedd hyn yn brin oherwydd ymrwymiadau presennol yr ysgolion. Ychwanegwyd bod y tîm yn parhau i ddatblygu adnoddau ac yn hyrwyddo'r cyfleoedd i ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn cyrraedd cynifer o ddisgyblion â phosibl.

Nodwyd.

10. Adroddiad ar Berfformiad yr Amcanion Llesiant

Cyflwynodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth Adroddiad ar y Perfformiad ar yr Amcanion Llesiant oedd yn rhoi manylion am y cynnydd a wnaed yn erbyn dangosyddion/ prosiectau/ rhaglenni gwaith blaenoriaeth am y cyfnod yn dod i ben ar 30 Mehefin 2026. Roedd yr adroddiad yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn y pedwar Amcan Llesiant (Cadwraeth, Hinsawdd, Cysylltiad a Chymunedau) fel y'u nodir yng Nghynllun Corfforaethol ac Adnoddau yr Awdurdod 2023/24 – 2026/27. Tynnodd y Swyddog sylw at y meysydd allweddol i'r Aelodau eu nodi, a rhoddodd ddiweddariad ynghylch y canopïau solar yn Llanion, gan gadarnhau bod y cais cynllunio cysylltiedig wedi'i gymeradwyo a bod y gwaith ar y prosiect i ddechrau yn y flwyddyn newydd.

Nodwyd bod gostyngiad o 30.4% wedi bod yn nifer yr oriau gwirfoddol a gyfrannwyd o'i gymharu â chwarter 1 yn 2025, oedd i'w briodoli i gyfuniad o ffactorau gan gynnwys tywydd garw, gostyngiad yn y rhaglen o

ddigwyddiadau a gweithgareddau'r Awdurdod, a bod y swydd Swyddog Datblygu Gwirfoddoli wedi bod yn wag am gyfnod. Roedd yr Aelodau yn cydnabod pwysigrwydd gwirfoddolwyr a'r cyfleoedd i wirfoddoli, ac awgrymwyd bod y Swyddog Datblygu Gwirfoddoli yn rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor unwaith y bydd wedi cael cyfnod yn y swydd. Ychwanegodd Aelod bod yr adroddiad wedi nodi bod y gostyngiad yn nifer yr oriau gwirfoddolwyr wedi'i effeithio'n rhannol gan benderfyniad yr Awdurdod i leihau nifer y digwyddiadau a'r gweithgareddau a gynigir, ac awgrymwyd bod hwn yn faes i'w gadw mewn golwg.

O ran nifer yr ymwelwyr, nodwyd bod Castell Henllys wedi gweld gostyngiad o 25.43%, a gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth ynghylch hyn. Cadarnhaodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth bod lleoliad anghysbell Castell Henllys yn her o ran denu ymwelwyr, a bod y safle hefyd wedi gweld gostyngiad yn nifer yr ymweliadau gan ysgolion oherwydd y goblygiadau logistaidd ac ariannol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod nifer yr ymwelwyr yng Nghastell Henllys yn cael ei fonitro gyda'r bwriad o gynnal adolygiad unwaith y byddai'r capasiti staff yn caniatáu. Yn dilyn cais gan Aelod, cytunwyd bod dadansoddiad o'r tueddiadau ymwelwyr yng Nghastell Henllys yn cael ei ddosbarthu i'r Aelodau.

Nodwyd.